

# Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn galw



Pan fyddwch yn galw 999 bydd derbynnydd ffôn yn gofyn i chi pa wasanaeth sydd ei angen arnoch. Mewn achos brys meddygol, dylech ofyn am ambiwlans a chewch eich trosglwyddo i un o'n Canolfannau Rheoli.

Bydd angen i chi ddweud wrthym beth sydd o'i le a beth sydd wedi digwydd, y cyfeiriad lle mae angen cymorth, gan gynnwys y cod post os byddwch yn ei wybod, a rhif y ffôn rydych yn ei ddefnyddio.

Pan fydd y ffeithiau hyn wedi'u casglu, fe'u cofnodir yn y system gyfrifiadurol i flaenoriaethu galwadau a dechreuir ar y gwaith o drefnu cymorth priodol. Fodd bynnag, bydd angen i'r cydlynnydd meddygol brys ofyn rhai cwestiynau ychwanegol gan gynnwys:

- oed y claf, rhyw a'i hanes meddygol.
- ydy'r claf yn anadlu, yn ymwybodol, yn gwaedu'n ddifrifol neu'n dioddef gan boenau cyson yn y frest.
- y math o anaf a sut y digwyddodd hyn.

Ni fydd gofyn y cwestiynau hyn yn gohirio trefnu'r cymorth, ond mae'n galluogi'r cydlynnydd meddygol brys i roi cyngor pan fydd ei angen a sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth mwyaf priodol.

Mae amryw o bethau y gallwch eu gwneud i hwyluso'r ffordd i'r criw ambiwlans cyn iddynt gyrraedd:

- ✓ Os byddwch yn y stryd, arhoswch gyda'r claf tan i'r criw ambiwlans gyrraedd a galw eto pan fydd ei gyflwr neu'i leoliad yn newid.
- ✓ Os byddwch yn galw o'r cartref neu'r gwaith, mynnwch fod rhywun yn agor y drysau ac yn arwyddo lle mae angen y criw ambiwlans.

- ✓ Rhowch unrhyw anifeiliaid anwes y teulu dan glo.
- ✓ Os yn bosibl, ysgrifennwch fanylion meddyg teulu'r claf a chasglu unrhyw feddyginiaethau mae'r claf yn eu cymryd
- ✓ Cofiwch ymdawelu – yno i estyn cymorth mae'r criwiau ambiwlans ac ni fyddan nhw'n dioddef unrhyw drais yn eu herbyn.
- ✓ Dywedir wrthyfych hefyd sut i gynorthwyo'r claf tra byddwn ni ar ein ffordd.

Pan fydd cymorth yn cyrraedd, gwneir asesiad o gyflwr clinigol y claf a, hwyrach, byddan nhw'n rhoi triniaeth iddo/iddi yn y fan a'r lle pan fydd angen.

Pan fydd cyflwr y claf yn dal yn ddifrifol wedi'r driniaeth, yna eir ag ef neu hi i adran D&A yr ysbyty agosaf neu i'r ganolfan arbenigol briodol fel canolfan trawiad y galon neu uned losgiadau.

Wedi trosglwyddo'r claf, mae'n rhaid i'r criw wirio bod eu gwaith papur yn gyflawn a bod eu hoffer a'u cerbyd yn barod am yr alwad nesaf.

Mae amryw o bethau hefyd y gallech eu gwneud heddiw i helpu criwiau ambiwlans yn eich ardal:

- ☐ Gwnewch yn siŵr fod enw neu rhif eich cartref yn glir o'r heol. Ceisiwch torri dailiech i ffwrdd yn aml i sicrhau fod yr enw neu rhif yn glir. Dylai'r llythrennau neu rhifau fod yr un maint sydd ar rhifau platiau ceir.
- ☐ Byddwch yn barod – darllenwch drwy'r gwybodaeth yma eto, er mwyn i chi wybod pa wybodaeth sydd angen oes fydd angen ambiwlans.

